Lindsey Prichard
Ysgol Gynradd Markham
Pantycefn Road
Markham
Y Coed Duon
NP12 0QD

28/04/2025

Annwyl Lindsey Prichard

**Ymweliad interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Markham yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'i arolygiad craidd ym mis Tachwedd 2022, ynghyd â'r gwaith y mae'r ysgol yn ei wneud i wella adborth i ddisgyblion.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, craffu ar lyfrau a dogfennau a chyfarfod â disgyblion, arweinwyr a staff. Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny a'i chynllun. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi rhagor o welliannau yn y meysydd hyn.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn ac maent yn dechrau gwerthuso effaith eu strategaethau gwella er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella darpariaeth awyr agored i gyfoethogi profiadau dysgu pob un o'r disgyblion

- Mae gan arweinwyr gynlluniau clir ar waith i sicrhau gwelliannau i ddarpariaeth ac ansawdd dysgu yn yr awyr agored. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion dysgu awyr agored o ansawdd uchel ac maent wedi rhannu'r rhain â'r staff.

- Mae buddsoddiad nodedig yr ysgol mewn adnoddau awyr agored yn dechrau gwella cyfleoedd i ddisgyblion elwa ar ddysgu yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu ochr yn ochr ag aelodau o'u teulu.
- Mae arweinwyr yn sicrhau y gall staff fanteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol addas i gynyddu eu gwybodaeth am ddysgu awyr agored effeithiol a phwrpasol a sut i arwain hyn. Er mai megis dechrau y mae'r datblygiad hwn, mae mwyafrif y staff yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd dysgu gwerthfawr yn yr awyr agored.
- Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i weithio yn yr awyr agored ac yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau. Mae gan ddisgyblion iau fynediad rhydd at ddarpariaeth awyr agored. Fodd bynnag, yn aml, caiff dysgu yn yr awyr agored ei arwain gan oedolion ac nid yw gweithgareddau'n galluogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol trwy chwarae yn yr awyr agored. Ar ben hynny, mae gorddibyniaeth ar weithgareddau y gallai disgyblion ymgymryd â nhw y tu mewn.

## Gwella ansawdd yr adborth i ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi orau ar gyfer dysgu

- Mae arweinwyr wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod adborth i ddisgyblion yn fwy ystyrlon ac mae athrawon wedi cael datblygiad proffesiynol diweddar i gynyddu eu dealltwriaeth o adborth pwrpasol i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth yn anghyson ar draws yr ysgol.
- Mae staff wedi diwygio polisi marcio ac adborth yn ysgol yn briodol i roi mwy o bwyslais ar adborth llafar i ddisgyblion 'yn y fan a'r lle'. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion mewn gwersi i'w helpu i wybod beth maent wedi'i wneud yn dda a beth allent ei wneud i wella eu gwaith ymhellach. Mae'r ysgol wedi cyflwyno 'Dydd Gwener Myfyriol' wythnosol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu gwaith gydag athrawon i'w helpu i nodi'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn ac nid yw pob un o'r disgyblion yn glir ynghylch eu targedau unigol.
- Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio ystod eang o gwestiynau effeithiol sy'n galluogi disgyblion i wirio eu dealltwriaeth, ond nid yw staff cymorth yn defnyddio holi cystal i ddyfnhau dysgu'r disgyblion.
- Nid yw adborth ysgrifenedig i ddisgyblion yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd yn ddigon effeithiol.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762078

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol